

Gwasanaeth
Cyfreithiol
Cymunedol



Gwneud Hawliau Cyfreithiol yn Realaeth

Strategaeth y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol
ar gyfer y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol

Crynodeb



COMISIWN
gwasanaethau cyfreithiol

Ein gweledigaeth

Ein gweledigaeth yw Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol sy'n canolbwyntio ar hawliau unigolion. Byddwn yn datblygu gwasanaethau cyfreithiol a chynghori i gynnal yr hawliau hyn, sydd wedi eu targedu at y bobl y mae'n bosibl na fedrai gael mynediad i gyfiawnder heb gymorth y Gwasanaeth.

Mae ymrwymiad i ddefnyddio'r gyfraith i gyflawni newid cadarnhaol yn greiddiol i'r Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol: mewn bywydau unigol, mewn cymunedau sy'n rhannu problem gyffredin ac ar draws grwpiau sy'n wynebu materion neilltuol. Mae wedi ei seilio ar weledigaeth sy'n cydnabod fod pobl angen mynediad i wasanaethau integredig a diwriad, ac nad ydynt yn wynebu 'problemau cyfreithiol' ond problemau y gall y gyfraith gynnig datrysiad iddynt. Anelwn ddatblygu'r Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol fel ei fod:

- *Â ffocws cleient ac yn hygyrch*
- *Annibynnol*
- *Cost-effeithlon ac wedi'i gydlynu*
- *Â sicrwydd ansawdd*

**Gwasanaeth
Cyfreithiol
Cymunedol**



Rhagair


Mae'r Comisiwn yn eiriolydd angerddol dros y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol. Mae ganddo'r grym i amddiffyn a hyrwyddo hawliau sylfaenol pobl a gwneud gwelliannau go iawn yn eu bywydau. Mae'n cyflawni hyn drwy roi mynediad i bobl at rym y gyfraith drwy addysg, gwybodaeth, cyngor a chynrychiolaeth.

Yn ddiweddar, mae'r Arglwydd Falconer, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Cyfansoddiadol, wedi cyhoeddi "A Fairer Deal for Legal Aid". Yn hwn mae'n nodi ei weledigaeth ar gyfer rôl gwasanaethau cyfreithiol a chynghori wrth ddatrys anghydfodau neu broblemau sifil. Yn y papur ymgynghori (y mae hwn yn grynodeb ohono), mae'r Comisiwn yn nodi'r cyfraniad y bydd yn ei wneud at y weledigaeth hon drwy wella ffocws cymorth cyfreithiol sifil ar gleientiaid a chynnig arweinyddiaeth i'r Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol.

Nid yr un peth yw'r CLS a'r LSC – a dyma'r gwahaniaeth allweddol rhwng y CLS a hen system cymorth cyfreithiol. Mae'r CLS yn llawer ehangach na chyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol y Comisiwn a ariennir yn uniongyrchol. Mae awdurdodau lleol ac adrannau'r llywodraeth ganolog yn buddsoddi symiau mawr mewn gwasanaethau cyfreithiol a chynghori, gan gydnabod yn amlwg yr effaith gadarnhaol y gall y gwasanaethau hyn ei chael. Mae'r CLS yn cwmpasu ystod eang o'r gwasanaethau hyn ac yn caniatáu i ni, gyda'n partneriaid, gynllunio a chyflwyno gwasanaethau cyfreithiol a chynghori sy'n bodloni anghenion y bobl a wasanaethwn yn well.

Felly, thema sylfaenol y papur ymgynghori yw ymgysylltu agosach a dyfnach â rhanddeiliaid eraill yn y CLS er mwyn gwneud iddo ganolbwyntio mwy ar anghenion cleientiaid, a'i wneud yn fwy effeithiol wrth gyflwyno gwasanaethau o safon sy'n bodloni'r anghenion hynny ac yn cyflawni canlyniadau cadarn i gleientiaid.

Hyd yn oed ar ôl mwy na 50 mlynedd o gymorth cyfreithiol a chyfnod hwy byth o wasanaethau cynghori arloesol, mae gormod o bobl o hyd nad oes ganddynt fynediad at y gwasanaethau cyfreithiol a chynghori y mae arnynt eu hangen. Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i weithio gydag eraill i newid hyn.



Syr Michael Bichard

Cadeirydd, Y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol

Mae'r daflen hon yn rhoi crynodeb o 'Gwneud Hawliau Cyfreithiol yn Realiti: Strategaeth y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol ar gyfer y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol. Cyfrol un: Papur Ymgynghori'.

I gyd-fynd â'r papur ymgynghori, rydym wedi llunio ail ddogfen yn ogystal, sef 'Cyfrol dau: Trosolwg o'r Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol'. Mae hwn yn rhoi disgrifiad cryno o'r CLS yng Nghymru a Lloegr ar ddiwedd ei bum mlynedd gyntaf. Mae'n cynnig cyd-destun ar gyfer y strategaeth a chrynodeb o'r wybodaeth sydd wedi dylanwadu ar ein barn wrth ei ddatblygu.

Gellir gweld y ddwy ddogfen ar wefan y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol:

www.legalservices.gov.uk/civil/docs_for_consultation/civil.asp

Dylid anfon ymatebion i'r ymgynghoriad drwy e-bost, post neu ffacs erbyn dydd Gwener 14 Hydref 2005 at:

Frances Malik
CLS Policy
Policy & Planning Directorate
Legal Services Commission
12 Roger Street
London
WC1N 2JL
Ffôn: 020 7759 1446
Ffacs: 020 7759 1428
e-bost: CLSPolicy@legalservices.gov.uk

Efallai y cyhoeddir ymatebion i'r ymgynghoriad hwn. Os dymunwch i'ch ymateb aros yn gyfrinachol, nodwch hynny.

Bydd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar gael yng Ngaeaf 2005/06 pan fydd fersiwn derfynol strategaeth y Comisiwn ar gyfer y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol yn cael ei gyhoeddi.

Gwasanaethau cyfreithiol cymunedol a'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol

Sefydlwyd y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol (CLS) gan Ddeddf Mynediad at Gyfiawnder 1999, sy'n disgrifio'r CLS nid fel corff neu sefydliad unigol ond o ran ei ddiben: yn bennaf, hyrwyddo argaeledd gwasanaethau cyfreithiol - gwybodaeth, cyngor a chynrychiolaeth – yn y gyfraith sifil. Mae gan y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol (LSC) y ddyletswydd i ddatblygu a chynnal y CLS. Fodd bynnag, gallai'r CLS gynnwys pob un sy'n ariannu, yn darparu neu'n hwyluso gwasanaethau cyfreithiol a chynghori sifil. Mae prif randdeiliaid yn y CLS felly yn cynnwys awdurdodau lleol ac adrannau'r llywodraeth ganolog, y sectorau cyfreithwyr a chynghori, yn ogystal, wrth gwrs, â chleientiaid - y rheiny sy'n derbyn y gwasanaethau eu hunain. Un o themâu canolog y strategaeth hon yw y gall yr holl randdeiliaid hyn gan weithio gyda'i gilydd gyflawni canlyniadau gwell na thrwy weithio ar eu pennau eu hunain.

Yr amcan craidd wrth hyrwyddo argaeledd gwasanaethau cyfreithiol a chynghori drwy'r Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol (CLS), ac yn y LSC ariannu'r cyfryw gymorth yn uniongyrchol, yw amddiffyn a hyrwyddo hawliau pobl. Yn benodol:

- galluogi unigolion i amddiffyn eu hawliau sylfaenol yn wyneb gweithredu gan awdurdodau cyhoeddus ac i gael gwrandawriad teg mewn, er enghraifft, achosion iechyd meddwl ac achosion plant y gyfraith gyhoeddus;
- eu helpu i ddatrys anghydfodau cyfraith breifat fel achosion esgeulustod clinigol a theulu y gyfraith breifat, a thrwy gyd-drafod ac atebion y tu allan i'r llys lle bo modd, a thrwy fynediad i'r llysoedd lle dyna'r unig lwybr, neu'r llwybr mwyaf priodol; ac
- ymdrin â phroblemau, fel y rheiny'n ymwneud â dyled, budd-daliadau lles, a thai, sy'n cyfrannu at eithrio cymdeithasol, a thrwy hynny helpu i'w drechu.

Mae llawer o'r bobl mae'r CLS yn eu helpu yn dlawd (ac nid ydynt felly'n gallu talu'n breifat am fynediad i wasanaethau cyfreithiol), wedi'u heithrio'n gymdeithasol ac yn dibynnu ar gymorth a ddarperir gan asiantaethau eraill y llywodraeth ac awdurdodau lleol. Mae ymchwil yn dangos hefyd lle bo gan bobl un broblem y gellir ei datrys yn gyfreithiol, mae'n debygol y bydd ganddynt rai eraill hefyd.

Y grwpiau cleientiaid hyn a'r meysydd cyfraith hyn fu ein ffocws mwyaf yn ein rôl ehangach o sefydlu, datblygu a chynnal y CLS, ac felly dyma ffocws sylfaenol ein gwaith gyda rhanddeiliaid eraill y CLS.

Ein gweledigaeth ar gyfer y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol

Ein gweledigaeth yw cael Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol sy'n gwneud y cleient yn graidd ei weithgareddau ac sy'n canolbwyntio ar hawliau unigolion. Byddwn yn datblygu gwasanaethau cyfreithiol a chynghori i gynnal yr hawliau hyn, wedi'u targedu at bobl na fyddai mynediad at gyfiawnder yn bosibl efallai heb gefnogaeth y gwasanaethau hynny.

Mae gennym farn glir hefyd y dylai'r CLS gael yn graidd iddo ymrwymiad i ddefnyddio'r gyfraith i gyflawni newid cadarnhaol: mewn bywydau unigol, mewn cymunedau sy'n rhannu problem gyffredin ac ar draws grwpiau sy'n wynebu problemau penodol. Mae'n weledigaeth hefyd sy'n cydnabod bod angen mynediad ar bobl at wasanaeth integredig di-dor, ac nad ydynt yn wynebu 'problemau cyfreithiol' ond yn hytrach problemau y gall y gyfraith o bosibl gynnig ateb iddynt.

Mae hyn oll yn cyd-fynd â chyd-destun o gydnabod cyfraniad llawer o wasanaethau eraill sy'n gweithio i oresgyn yr un problemau i gleientiaid. O wasanaethau iechyd ac addysg i wasanaethau gofal cymdeithasol a chymorth teulu, mae'n amlwg mai un pecyn o offer yn unig yw'r CLS i helpu unigolion i fynd i'r afael â'r problemau maent yn eu hwynebu.

Rydym eisiau datblygu'r Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol er mwyn iddo fod:

- â ffocws ar gleientiaid ac yn hygyrch;
- yn annibynnol;
- yn gost-effeithiol ac yn gydlynus; ac
- wedi'i sicrhau o ran ansawdd.

Yr angen am newid

Credwn fod pum prif bwynt sy'n codi o'r dystiolaeth a'r dadansoddiad a grynhoir yng Nghyfrifol Dau o'n papur ymgynghori:

- Mae angen i'r LSC gynnig arweinyddiaeth glir o'r CLS gan gynnwys darparu cyfeiriad strategol a gweithio gydag eraill i roi sylw i achosion problemau;
- Nid yw pob Partneriaeth Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol (CLSPs) wedi cyflwyno'r dystiolaeth i ganiatáu ar gyfer comisiynu gwasanaethau cyfreithiol a chynghori â mwy o ffocws i fodloni anghenion blaenoriaeth;
- Mae angen mynediad gwell at gyngor cyfreithiol cynnar ar gyfer cleientiaid presennol a'r rheiny nad ydynt yn cael cyngor ynghylch y problemau a wynebant;
- Mae angen darparu gwasanaethau cyfreithiol a chynghori lles cymdeithasol mewn modd integredig a di-dor er mwyn cael yr effaith fwyaf i'r cleientiaid mwyaf difreintiedig; ac
- Ar hyn o bryd nid yw gwasanaethau o reidrwydd yn y manau iawn i fodloni blaenoriaethau a nodwyd mewn modd strategol. Yn y dyfodol, dylai gwasanaethau gael eu comisiynu yn erbyn targedau a gytunwyd ar fynediad, yn ogystal ag ar yr ystod o wasanaethau a gyflwynir.

Dymunwn ymgynghori'n eang, â holl randdeiliaid y CLS, ynghylch y cynigion, a'u datblygu ymhellach mewn partneriaeth. Er hynny, rydym yn gwbl glir bod newid yn hanfodol er mwyn i ni wireddu'n llawn buddion posibl y CLS i'w gleientiaid a bodloni'r heriau allweddol a nodir gennym uchod.

Gweithio gyda'n gilydd

Yr unig ffordd y cyflawnwn ein gweledigaeth yw drwy weithio'n agosach â chyllidwyr eraill fel yr awdurdodau lleol ac adrannau'r llywodraeth ganolog. Bwriadwn sefydlu grŵp rhanddeiliaid cenedlaethol i'r CLS sy'n cynnwys y partneriaid allweddol hyn ac, yn bwysig, cynrychiolwyr cleientiaid.

Ar lefel ranbarthol, bwriadwn adolygu swyddogaeth gynllunio bresennol Partneriaethau Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol gyda golwg ar wneud trefniadau mwy uniongyrchol a hyblyg gyda noddwyr eraill. Gall yr LSC gynnig mynediad i gyllidwyr eraill CLS at systemau rheoli perfformiad, sicrhau ansawdd, rheoli contractau a dadansoddi anghenion. Gallai hyn sicrhau bod nawdd yn cael ei gyfeirio tuag at gynyddu gallu a hyrwyddo gwasanaeth di-dor sy'n mynd i'r afael â'r ystod o broblemau sydd gan gleientiaid.

Byddwn yn mabwysiadu ymagwedd fwy strategol, yn genedlaethol ac yn lleol, wrth geisio sicrhau ymrwymadau cyllido hirdymor ar gyfer gwasanaethau cyfreithiol a chynghori o ffynonellau newydd ac wrth ddeall yr amcanion ehangach sy'n gyrru'n partneriaid. Gall y CLS gyfrannu at agenda ehangach y llywodraeth drwy helpu i gydweddu gwasanaethau cyfreithiol â datblygiadau polisi a gwella'r prosesau y bydd cleientiaid yn ymgysylltu â'r wladwriaeth drwyddynt. Rhaid i ni wneud hyn tra'n cynnal annibyniaeth y CLS er mwyn cynnal hawliau'r unigolyn.

Blaenoriaethau I'r Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol

Rydym wedi nodi tri maes blaenoriaeth ar gyfer ein gwaith wrth ddatblygu gwasanaethau'r CLS:

1. Gwelthredoedd cynghori a chynorthwyo unigol

Gwyddwn, o ymchwil fel Arolwg Cenedlaethol Problemau Traddodadwy y Ganolfan Ymchwil Gwasanaethau Cyfreithiol:

- ei bod yn debygol bod dros filiwn o broblemau cyfreithiol heb eu datrys bob blwyddyn;
- os oes un broblem gyfreithiol gan gleient, mae'n debygol bod problem arall ganddynt;
- dim ond hanner y rheiny sydd â phroblem sy'n gofyn am gyngor cyfreithiol, ac o'r rheiny sy'n gofyn, mae un o bob saith yn methu cael y cyngor hwnnw;
- mae'n edifar gan lawer o bobl sy'n gweithredu i ddatrys eu problem(au) am y modd y gwnaethant ddelio â'r mater; a
- pho fwyaf o weithiau y caiff cleient ei gyfeirio, y lleiaf tebygol y mae o gael cymorth yn y pen draw.

Credwn fod cyngor cynnar yn hanfodol i atal problemau pobl rhag gwaethygu, rhag dod yn fwy niferus a chymhleth, ac felly'n cynyddu risg eithrio cymdeithasol a'r gost gyffredinol i gymdeithas a gwasanaethau cyhoeddus. Os na allwn atal problemau rhag codi yn y lle cyntaf, rydym eisiau helpu'u datrys mor fuan â phosibl – a gwneud mynd i'r llys yn ddewis olaf.

Bwriadwn:

Ehangu ein gwasanaeth cynghori cenedlaethol presennol ar y ffôn er mwyn ehangu mynediad at wasanaethau cyfreithiol a chynghori a chyflawni gwerth mwy am arian. Bydd hyn yn sicrhau fod mwy o bobl yn cael mynediad at wybodaeth a chyngor sylfaenol, a bydd yn darparu gwasanaeth cyfreithiol a chynghori hygyrch ar draws Cymru a Lloegr gan gwmpasu ystod eang o broblemau.

Datblygu Canolfannau Cyfreithiol a Chynghori Cymunedol gan ddarparu gwasanaethau cyfreithiol a chynghori wyneb-i-wyneb mewn cyfraith lles cymdeithasol yn cael ei gyflwyno dan fanyleb gwasanaeth yn canolbwyntio ar y cleient. Byddant yn cyflwyno gwasanaeth di-dor, o gyngor a chymorth sylfaenol

i gynrychiolaeth arbenigol yn y llysoedd uchaf. Er mwyn delio â phroblemau cleientiaid yn ddi-dor, bydd y Canolfannau yn cwmpasu ystod lawn o wasanaethau'r gyfraith lles cymdeithasol, a hefyd yn cyflwyno neu'n cynnal cysylltiadau effeithiol â chyflenwyr mewn meysydd arbenigol eraill o'r gyfraith.

Lleolir y Canolfannau hyn mewn ardaloedd trefol poblog lle mae'r crynhoed uchaf o bobl yn wynebu tlodi ac eithrio, a'r nifer fwyaf o gleientiaid ag arnynt angen gwasanaethau cyfreithiol a chynghori. Gallai nawdd i'r Canolfannau fod yn gysylltiedig â chyflawni canlyniadau penodol i gleientiaid. Gallai gweithgareddau allweddol gynnwys:

- targedu grwpiau nad ydynt yn mynd at wasanaethau presennol, er enghraifft, drwy allygymorth mewn canolfannau cymunedol neu feddygyfeydd teulu sy'n canolbwyntio ar helpu pobl sydd ag angen penodol am, ac anhawster o ran, cael mynediad at wasanaethau oherwydd eu hamgylchiadau personol (fel pobl â phroblemau iechyd meddwl neu'r rheiny ag anabledau corfforol), a rhoi sylw i'r patrymau o broblemau a wynebant. Byddant hefyd yn ceisio sicrhau mynediad effeithiol i'r cleientiaid hynny o grwpiau ethnig croenddu a lleiafrifol sy'n amharod i fynd at neu nad ydynt yn gallu cael mynediad at wasanaethau cyfreithiol traddodiadol;
- helpu i fynd i'r afael ag achosion sefydliadol problemau yn ymwneud â chyflwyniad gwael gwasanaethau cyhoeddus a phreifat drwy ddeialog, cyd-drafod, a, lle bydd hyn yn methu, mynd i gyfraith; a
- helpu i roi gwybod i gleientiaid am eu hawliau, a darparu gwybodaeth a phecynnau hunangymorth.

Datblygu'r ymagwedd gysylltiedig a gynigir ar gyfer y Canolfannau i ardaloedd daearyddol eraill drwy Rwydweithiau Cyfreithiol a Chynghori Cymunedol.

Byddwn yn ystyried hefyd a fyddai rhwydwaith felly yn ymarferol yn rhanbarthol i sicrhau bod cleientiaid yn cael mynediad at ystod eang o wasanaethau. Byddai'r cyflenwyr yn y rhwydwaith yn cofrestru am fanyleb gyffredin o wasanaethau gan weithio gyda'i gilydd i ddarparu gwasanaeth di-dor ac integredig ar draws ystod eang o categorïau o gyfraith, gan gynnwys categorïau lles cymdeithasol ac o gyngor cychwynnol i fynd i gyfraith. Trwy greu rhwydweithiau eang byddwn yn gallu sicrhau bod gwasanaethau mewn ardaloedd mwy gwasgaredig yn ddaearyddol yn cael mynediad at yr ystod lawn o wasanaethau cyfreithiol a chynghori y mae arnynt eu hangen. Fel y Canolfannau, gellid eu hariannu ar y cyd, a gallent hwythau hefyd fynd i'r afael ag achosion sefydliadol problemau.

2. Gwelthredu strategol i ddello â'r angen am gyngor

Mae darparwyr gwasanaethau cyfreithiol a chynghori yn gweld yr un mathau o broblemau dro ar ôl tro, pan fydd gwasanaethau cyhoeddus wedi methu â bodloni eu dyletswyddau statudol neu pan fydd cwmnïau masnachol wedi camarwain neu ymelwa ar eu cwsmeriaid. Gyda safbwynt unigryw ar batrnw y problemau a wyneba pobl, a'r posibilïadau y mae'r system gyfreithiol yn eu cynnig i'w datrys, gall y CLS gyfrannu at ddeialog rhwng defnyddwyr a darparwyr gwasanaethau. Cynigia hyn ymagwedd strategol a chost-ffeithiol at wella gwasanaethau (ac felly atal problemau traddodadwy).

Bydd ein ffocws ar dri phrif faes gweithgarwch:

- Codi ymwybyddiaeth o'r materion drwy gynhyrchu cyhoeddiadau perthnasol ac ymgysylltu â'r llywodraeth a chymunedau lleol. Ein bwriad yw lleihau'r angen am gamau cynghori a chynorthwyo unigol sy'n digwydd dro ar ôl tro, a chael mwy o effaith felly i gleientiaid gyda'r adnoddau sydd ar gael i ni.
- Cyd-drafod, drwy ymgysylltu â darparwyr gwasanaethau ar lefel uwch mewn modd adeiladol a chadarnhaol er mwyn amlygu problemau ac awgrymu atebion.
- Ariannu mynd i gyfraith lle bydd ymagweddau eraill yn methu. Bydd hyn yn cynnwys nodi a dod ag achosion prawf, ac weithiau ariannu dwyn achos gan grwpiau o gleientiaid.

3. Gwybodaeth am hawliau a chyfrifoldebau cyfreithiol

Mae'r CLS yn hyrwyddo gwybodaeth, sy'n caniatâ i bobl wybod ac arfer eu hawliau cyfreithiol. Nid ydym yn ceisio annog mynd i gyfraith yn ddiangen; rydym am i bobl ddeall sut ddylent ddefnyddio'r gyfraith i sicrhau newid cadarnhaol yn eu bywydau.

Dengys ymchwil bod gwybodaeth felly'n bodoli, ond ar hap y digwydd mynediad ac argaeledd oherwydd diffyg safonau a chysondeb. Gall cymhlethdod y sector gwybodaeth a chyngor ac amrywiaeth y problemau sy'n wynebu cwsmeriaid, ynghyd â nifer y ffynonellau gwybodaeth, wneud i ddefnyddwyr deimlo na allant ddod o hyd i'r wybodaeth y mae arnynt ei hangen. Felly nid ydym yn ceisio cynyddu faint o wybodaeth a ddarperir; yn hytrach, ceisiwn hyrwyddo ffynonellau dibynadwy a helpu cleientiaid felly i lywio eu ffordd drwy'r wybodaeth a'r cyngor sydd ar gael. Caiff y gwaith hwn ei gyflawni'n bennaf drwy weithio gydag eraill, yn enwedig yr Adran Materion Cyfansoddiadol a'i Strategaeth Addysg, Gwybodaeth a Chyngor.

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod cleientiaid yn cael mynediad at wasanaethau cyfreithiol a chynghori priodol a chredwn felly y bydd y strategaeth hon yn helpu i wneud hawliau cyfreithiol yn realiti.

Cred y Comisiwn fod eich cyfraniad chi at yr ymgynghoriad ar y strategaeth yn hanfodol. Byddem felly yn eich annog i edrych ar y fersiwn llawn o'r papur, sydd ar gael ar wefan y Comisiwn, a chroesawn eich ymateb iddo.

Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol

85 Gray's Inn Road

Llundain WC1X 8TX

t: (020) 7759 0000

www.legalservices.gov.uk